**Bwyd  mamolion bach**

**Nodiadau’r athro**

**Nod**
Arddangos anghenion bwyd mamolion bach.

**Amcanion**
Bydd y myfyriwr yn gallu:
Nodi bwyd addas ar gyfer mamolion bach.
Sefydlu pa grwpiau o fwydydd mae pob bwyd yn ei ddarparu.
Sefydlu pa fwydydd sy’n dderbyniol.
Adnabod pwysigrwydd maint.
Trafod dulliau o gyflwyno.

**Cynnwys**
Mae’r uned hon yn darparu seiliau i ddeall pa fath o fwydydd sy’n addas, yn dderbyniol i’r anifeiliaid anwes mwyaf cyffredin. Cyflwynir egwyddorion cyffredinol, a bwriedir i’r myfyrwyr fedru gymhwyso’r rhain i rywogaethau o ddiddordeb arbennig. Mae’r egwyddor hon yn gallu arwain at drafodaeth dosbarth, ymchwil annibynnol, neu dasgau ymarferol, fel yr awgrymir o fewn y cynllun gwers:

***Bwyd – awgrym ar gyfer cynllun gwers***

| Amseriad mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys mynegol | Tasgau Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Bwyd derbyniol | Pa fwyd a ellir ei roi?<br>Pa gynhwysion unigol sydd mewn bwyd cymysg cnofil?<br>Pa grwpiau o fwydydd a ddarperir?<br>Pa grwpiau o fwydydd sydd rhaid eu bwydo'n ofalus a Pham? | Trafodaeth ystafell ddosbarth ynglŷn â strategaethau bwydo.<br>Dosbarthwch rywogaethau, i unigolion neu grŵp, er mwyn cynnal ymchwil annibynnol.<br><br>Trafodwch Ddulliau Bwydo - cigysydd, llysysydd, hollysydd. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Meintiau | Pa faint sydd ei angen?<br>Pa ffactorau sy'n rheoli'r maint sydd yn cael ei roi?<br>Sut mae'r bwyd yn cael ei feintioli a'i fesur?<br>Pa faint sydd ei angen fel arfer? | Trafodaeth ystafell ddosbarth ynglŷn â pheryglon gorfwydo.<br>Ymchwil annibynnol i nodi meintiau addas.<br>Trafodwch sut mae oed, rhyw, statws atgynhyrchu yn medru effeithio ar faint o fwyd a roir.<br>. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Cyflwyniad | Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyflwyno bwyd?<br>Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyflwyno dŵr? | Nodwch ddulliau o gyflwyno bwyd i greu cyfoethogiad.<br>Trafodwch fanteision, anfanteision ac addasrwydd gwahanol lestri bwydo a dyfrhau.<br>Dyluniwch a chynhyrchwch weithgaredd cyfoethogiad trwy ddefnyddio bwyd – gweithredwch ac arsylwch yr effaith ar ymddygiad. |
| | | Tasg Trosfwaol:<br>Mae tasg ryngweithiol wedi ei chynnwys o fewn y pecyn hwn, lle mae angen i fyfyrwyr gydweddu grwpiau bwyd at eitem bwyd addas; a nodi i ba bwrpas y defnyddir y grŵp bwyd. | | Cwblhewch y dasg ryngweithiol trwy'n linc a ddarperir. |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD